

## Templed ar gyfer cylchlythyr, testunau ac ati.

Rydym yn falch iawn o gyhoeddi y gall staff a rhieni gael mynediad at gwrs arloesol AR-LEIN am blant bellach, sydd werth £39, yn **rhad ac am ddim**. Mae'r cwrs 'Deall Eich Plentyn' wedi'i roi at ei gilydd gan *Solihull Approach*, sef dull achrededig sy'n seiliedig ar dystiolaeth a sefydlwyd 20 mlynedd yn ôl gan seicolegwyr, ymwelwyr iechyd a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill.

Mae'r cwrs fel arfer yn costio £39 y person. Fodd bynnag, trwy ddefnyddio'r cod mynediad: **NWSOL** (yn ddilys tan Tachwedd 2022) ar [www.ourplace.co.uk](http://www.ourplace.co.uk), gallwch gofrestru ar eich cyfrif eich hun ac ailymweld â'r cwrs am flynyddoedd i ddod heb dalu ceiniog.

Mae'r cwrs 'Deall Eich Plentyn' ar gyfer rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol sy'n gofalu am blant rhwng 0 a 18 mlwydd oed. Mae'n edrych ar ddatblygiad yr ymennydd, chwarae, mathau o rianta, cysgu, pyliau o dymer ddrwg, cyfathrebu a mwy ac mae'n seiliedig ar gwrs wyneb yn wyneb sydd wedi'i gydnabod yn genedlaethol ac yn rhyngwladol ac sydd wedi'i gynniog gan *Solihull Approach*.



Mae rhwng 9 a 11 modiwl yr un sy'n cymryd tua 20 munud (mae gan y prif sgriniau drosleisiau dewisol) yn ogystal â gweithgareddau rhyngweithiol, cwisiau, clipiau fideo a thafenni ymarferol.

**“Mae hyn wedi bod yn brofiad gwerthfawr a fydd, mewn ffordd, yn effeithio ar sawl agwedd ar fy mywyd”**

**“Mae'r cwrs hwn wedi bod yn rhodd hollol amhrisiadwy i mi. Mae wedi, a bydd, yn newid cymaint o agweddau ar fy mywyd. Heb os, rydw i'n rhiant gwell ac yn berson mwy cyflawn o ganlyniad. Mae rhai agweddau wedi bod yn fomentau 'Eureka' i mi! Petawn i OND yn gwybod hyn i gyd flynyddoedd yn ôl!”**

**“Gwnaeth cwrs *Solihull Approach* ei gwneud yn glir nad oes angen gwersi ar rieni: mae bywyd beunyddiol yn rhoi digon o'r rheini. Beth sydd ei angen arnom yw'r cyfle i sefyll yn ôl ac arsylwi ar ein plant. Mae angen rhywfaint o arweiniad strwythuredig i'n helpu i fyfyrio ar yr holl ffactorau sy'n peri iddynt ymddwyn yn y ffordd a wnânt; rhai yn ddatblygiadol a rhai yn amgylchiadol.”**

**“Rydw i wedi gweld bod y cwrs ar-lein hwn yn ddefnyddiol iawn. Nawr, rydw i'n treulio amser yn meddwl yn fwy yn ystod sefyllfaoedd anodd ac yn ystod anghydfodau â'm plant.”**

**“Nid yw'n gweithio bob amser ond, fesul cam, rydym yn gweithio at gartref llai gwrthdrawiadol!”**



**DEALL EICH PLENTYN  
UNDERSTANDING YOUR CHILD**



**S O L I H U L L   A P P R O A C H**